# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS MAWRTH 2021:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor ar Zoom (diolch i HLJ am drefnu) nos Fercher 10fed o Fawrth, 2021, am 7 y.h.
Estynwyd croeso gan y Cadeirydd i'r aelodau ynghŷd â Rhian Elin George (RhG), Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd (CG) oedd wedi dod i drafod sut i chwilio am gymorth ariannol.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen.
***Ymddiheuriadau:*** Llinos Haf Pritchard. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 YMWELIAD RHIAN GEORGE - SWYDDOG CEFNOGI CYMUNEDAU:**
Cafwyd trafodaeth eang ar faterion yn ymwneud a'r caeau chwarae, Ger y Llyn a chae UEFA a trafod hefyd ar gynllun Trac Beics y mae KMJ yn gobeithio y caiff ei adeiladu ar lan y llyn ger Glynrhonwy. Roedd RhG wedi trafod cryn dipyn ar y syniadau cyn dod i'r cyfarfod ac yn barod ei chyngor gyda materion cyllid ar gyfer y caeau chwarae.
Bu'n edrych gyda chymorth Rheolwr Parc Padarn ar lain o dir sydd wedi ei ddynodi'n rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGA) Llyn Padarn. Yn ôl KMJ a RhG roedd hwn yn ymddangos y llecyn delfrydol.
Dywedwyd ei fod yn gyfleus ar gyfer y meysydd parcio, toiled a caffi ac yn ddigon pell oddi wrth gartrefi o ran sŵn ac ymyrraeth. Dywedir y byddai'r safle yn addas i drac beic a fyddai'n gwau ei ffordd heibio coed a thros dwmpathau a bod cryn gefnogaeth i'r syniad yn lleol. Byddai wyneb y trac wedi ei orchuddio ag asffalt. Mae cryn dyfiant ar y tir, ond gwastaff llechi ydi'r sail, ac er i rai godi amheuon ynglŷn â chael caniatad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mae'n ymddangos fod CG yn meddwl fod siawns go dda er y dynodiad. Codwyd cwestiwn hefyd am ddioglewch y safle oherwydd agosatrwydd y coed i'r llwybr a awgrymir.
Dywedodd KMJ fod ganddo addewid am arian a chymorth i adeiladu'r trac ond bydd angen rhywun i ofalu amdano wedyn, i'w gynnal a'i gadw ac i'w yswirio. Dywedwyd fod addewid am gymorth i gynnal a chadw gan CG, gyda'r perchennog yn disgwyl i'r Cyngor Cymuned gymeryd prydles ar y tir. Ond roedd rhai o'r aelodau yn bryderus y gallai cynnal a chadw ac yswiriant fod yn faich ar drethdalwyr a chyllid y Cyngor yn y dyfodol. Yn ôl RhG efallai y byddai Beicio Cymru a diddordeb ac y gallai'r trac greu peth incwm.
Yn amlwg bydd angen trafodaethau pellach os daw caniatad i leoli'r trac yn y fan yma ac y gwireddir yr addewidion am gymorth ariannol i'w adeiladu.
Yna cafwyd trafodaeth ar y ddau gae chwarae, Ger y Llyn a Chae UEFA. Addawodd RhG anfon manylion cwmni a drwsiodd gael cyffelyb yn Waunfawr a soniodd hefyd am ddulliau posib o gael grantiau trwy i fudiad neu fudiadau tu allan i'r Cyngor wneud cais amdanynt. Mae mwy o arian ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol o gymharu a chynghorau cymuned. Adroddodd GE iddo holi Cymdeithas Pêl-droed Cymru i weld fyddai cymorth yn debyg o ddod o'r cyfeiriad hwnnw, ond siomedig oedd yr ymateb a gafodd, diolchwyd iddo. Diolchwyd hefyd i RhG am ymuno a'r cyfarfod ac am ei pharodrwydd bob amser i gynorthwyo.

**4 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 10fed o Chwefror, 2021 fel rhai cywir a threfnir i'r Cadeirydd eu harwyddo yn y dyddiau nesaf. Cynnig ac eilio: HLJ / IO.

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Cynllun Cyfaill:***
Y gwasanaeth yn dal ar gael.
***2. Ffordd A4086 a Llifogydd:***
Adroddodd y Clerc iddo gysylltu a CG (Adran Priffyrdd) i ddiolch am y gwaith a wnaed ar y ffordd yn Nantperis ger mynedfa Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Mae'n ymddangos fod y broblem llifogydd ar y ffordd yn y fan honno wedi eu datrys, ac na chafwyd fawr ddim dŵr ar y ffordd ger y fynedfa i Gardda Bach yn y glawogydd trwm diweddar. Serch hynny bydd angen cadw golwg fanwl ar y llecyn yma gan mai dros dro yn unig y mae'n ymddangos y cafwyd atebion i'r llifogydd yn y gorffennol.

Gyda'r llifogydd diweddaraf mae problem rhwng mynedfeydd Cwm Aelhir Uchaf ac Isaf. Bu'r ffordd yma o dan ddŵr nifer o weithiaua'n ddiweddar. Dywedodd y Clerc fod peth o hwn yn deillio o waith a wnaed gan gwmni trydan Scottish Power rai blynyddoedd yn ôl. Awgrymodd i CG y dylid rhoi dwy bibell yn y wal isaf i gymeryd y dŵr mwyaf oddi ar y ffordd fel na allai'r dŵr fyth fod yn uwch na lefel y llwybr troed. Hefyd roedd wedi holi a oedd y clogwyn ar y tro i'r dwyrain o Glandŵr yn ddiogel ar ôl i gerrig syrthio a chau'r ffordd yn ddiweddar. Mae'n disgwyl atebion.

***3. Grantiau:***

Mae pawb a dderbyniodd arian grant wedi mynegi eu diolchgarwch.

***4. Cofeb y Chwarelwyr:***

Cafwyd adroddiad gan y Clerc iddo baratoi erthygl i Eco'r Wyddfa (roedd yr aelodau eisioes wedi gweld drafft ohonni) yn holi am syniadau ar gyfer y Gofeb. Mae'r erthygl hefyd ar yr Hysbysfyrddau yn y ddau bentref ac ar fin mynd ar Wefan y Cyngor. Hefyd mae'r Clerc yn holi CG am leoliad addas.

***5. Cae Chwarae Dôl Elidir:***

Mynegodd nifer eu balchder frod offer newydd ar gyfer plant gydag anabledd wedi ei leoli yma. Bydd y Clerc yn anfon gair o werthfawrogiad at CG.

***6. Cae Chwarae Ger y Llyn:***

*1 Damwain:*

Dywedodd y Clerc iddo dderbyn llythyr oddi wrth riant yn dweud i blentyn gael damwain ar y cae. Roedd wedi ymateb i'r llythyr ac eraill a dderbyniodd wedyn gan eu cyfieithu a'u trosglwyddo i gwmni yswiriant y Cyngor. Bellach mae'n fater rhwng y cwmni yswiriant a chyfreithiwr y rhiant ac felly doedd dim hawl i'w drafod yn y Cyngor. Ychwagodd y Clerc fod RhaG a BH, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor wedi derbyn copi o'r holl ohebiaeth a fu.

*2 Adnewyddu:*

Yn unol a phenderfyniad cynharach aethpwyd ati i drafod dyfodol y cwrs coed yn y Maes Chwarae yma. Penderfynwyd yn unfrydol i'w adnewyddu yn llawn. Cynnig ac eilio: IO / HLJ.

***7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryr [APCE]i:***

Roedd y Clerc a KMJ wedi mynychu cyfarfod rhithiol o Barneriaeth yr Wyddfa a'r 'Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen: Y Camau Nesaf'. Yn ôl y Clerc roedd rhyw 60 wedi mynychu'r digwyddiad. Roedd yn gyfarfod a drefnwyd yn dda, gyda cyfle i fynegi barn mewn grwpiau bychan ond dim cyfle i drafodaeth ehangach. Roedd y cyflwyniadau'n adlewyrchu cynnwys yr Adolygiad, gyda llawer o'r pwyslais ar ymgynghori a cheisio cefnogaeth leol i symud ymlaen. Wrth drafod pentref Llanberis fel 'porth' i ardal Yr Wyddfa gwnaed yn glir nad oedd dymuniad i weld mwy o lefydd parcio'n y pentref ei hun ac mai yn hen Chwarel Glynrhonwy yr oedd llawer yn meddwl y dylid chwilio am le ychwanegol i barcio a chyn belled a bod modd i APCE a CG gytuno ar newid defnydd rhan o'r safle, pe bai dim ond dros dro. Mae llawer yn bryderus nad ydi CG yn ystyried y safleoedd yn y chwarel ond fel mannau ar gyfer diwydiant. Y farn yw fod CG wedi cael mwy na digon o amser i chwilio am gwmniau a diwydiannau i ddod yno, gresyn na lwyddwyd, ond dyna'r sefyllfa. Mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi llenwi holiadur ar ran y Cyngor Cymuned.

***8. Defaid Crwydrol:***

Adroddwyd eto fod defaid crwydrol yn dal yn broblem yn Llanberis. Dywedodd y Clerc ei fod mewn trafodaethau â un o swyddogion Troseddau Cefn Gwlad, Heddlu'r Gogledd i weld a ellir datrys rhai o'r problemau.

**6 MATERION ERAILL**

***1. Mynydd Gwefru:***

Mae'n wybyddys i bawb bellach na fydd cwmni First Hydro yn adnewyddu Mynydd Gwefru. Bu ar gau ers nifer o flynyddoedd ac mae perygl iddo fynd yn ddolur llygad mewn safle amlwg. Roedd cryn bryder am hyn ac am y ffaith fod yr adeilad yn wreiddiol wedi ei adeiladu fel adnodd cymunedol, nid fod y gymuned wedi cael unrhyw lais yn ei reoli erioed. Soniwyd fel yr oedd nifer o syniadau wedi eu gwyntyllu ar y gwefannau cymdeithasol , ond go brin fod llawer ohonynt yn ymarferol. Rhaid cofio mai'r cwmni trydan ydi perchen yr adeilad, a dywedwyd os nad ydyn nhw o'r farn y gellir ei redeg yn broffidiol, yna go brin y gallai neb arall. Pe bai'r adeilad yn cael ei ddymchwel holwyd tybed a ellid rhoi peth o'r tir sy'n faes parcio i'r gymuned fel bod budd ariannol yn dod ohonno i'r gymuned. Adroddwyd fod Sian Gwenllian cynrychiolydd yr ardal yn Senedd Cymru yn bwriadu trefnu cyfarfod yn fuan i drafod y sefyllfa gyda cynrychiolwyr o gynghorau Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu dirprwyaeth.

***2. Caffi Glynrhonwy:***

Roedd ymateb wedi bod yn ddiweddar i'r bwriad o roi enw uniaith Sesneg ar gaffi ar Stâd Ddiwydiannol y Glyn. Atgoffwyd yr aelodau nad dyma'r unig fusnes ag iddo enw uniaith Saesneg yn yr ardal ac yn gweithredu'n Saesneg a thrafodwyd mai da o beth fyddai cofio hynny yn hytrach na rhoi'r chwydd-wydr ar un cwmni yn unig. Serch hynny roedd unfrydiaeth y dylid mynd ati i geisio cael cwmniau a busnesau'r pentref i Gymreigio a gofynnwyd i'r Clerc ystyried sut i wneud hynny. Cynnig ac eilio: RhaG / BH

***3 Fandaliaeth:***
Adroddwyd am nifer o achosion o fandaliaeth. Paentio a malu oedd amlycaf a'r lleoliadau yn amrywio o orsaf Gilfach-ddu i'r ganolfan.

**7 GOHEBIAETH:**
Roedd nifer o gylchlythyrau wedi eu rhannu i'r aelodau yn ystod y mis.

**8 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Chwefror, 2021**
**Cyfrif Cyfredol**: £20,520.91 **Cyfrif Cadw**: £5,365.93
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM … … £3,068.85**
**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/01/2020 a 28/02/2021:**
**CYFANSWM ... ... £250.00**
Cynnig ac eilio: HLJ / HS.

**9 LLWYBRAU**
Nodwyd nad oedd giat ger Gwesty Fictoria yn cau. Holwyd hefyd a oedd posib rhoi map o'r llwybrau cyhoeddus ar y Wefan y Cyngor. Eglurwyd y byddai'n rhaid creu map i gyfleu'r llwybrau a rhoi ystyriaeth pellach i'r mater.

**10. ADRODDIADAU ALLANOL:**
**Y Ganolfan:**
Adroddwyd fod Y Ganolfan yn cael ei defnyddio gan y Feddygfa ar gyfer brechiadau Covid-19. Hefyd dywedwyd fod Y Ganolfan bellach yn edrych ar ôl y ddau gae pel-droed ar Gae'r Ddôl.

**12 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf. Nos Fercher 14 Ebrill, 2021 am 7yh.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 10 Mawrth, 2021.